Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Aberaeron
# Gerddi Wellingtoon
# Aberaeron
# Ceredigion
# SA46 0BQ

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Aberaeron yn gwasanaethu'r dref a'r ardal gyfagos yng Ngheredigion. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 179 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed, wedi eu trefnu mewn wyth dosbarth.

Daw 17% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae 5% o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd ac mae 5% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae gan 25% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers 1998 a dwy ddirprwy bennaeth ers 2008. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Aberaeron yw £3,019. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,706 a'r isafswm yw £2,987. Ysgol Gynradd Aberaeron yw'r 59fed allan o'r 60 ysgol gynradd yng Ngheredigion o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae gan yr ysgol gryfderau sy'n gorbwyso meysydd i'w gwella. Mae'r cryfderau yn cynnwys:

- bron pob un disgybl yn dangos deallusrwydd cyson o'u lles, iechyd a diogelwch;
- cysondeb cadarn i'r gofal, cymorth ac arweiniad;
- defnydd effeithiol o'r amgylchedd dysgu; a
- phartneriaethau defnyddiol yn cefnogi gwaith yr ysgol.

Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys:

- safonau a medrau llawer o ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn is na'r lefelau cyrhaeddiad a chyflawniadau disgwyliedig;
- cynllunio nad yw'n caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol;
- ymateb anghyson i waith disgyblion ar bapur; a
- diffyg her mewn nifer o wersi, ac o ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cyflawni ar lefel briodol.

### Rhagolygon gwella

Er bod gan yr ysgol dîm rheoli newydd, egnïol sy'n cyd-weithio yn effeithiol, mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â rhai argymhellion o'r arolygiad blaenorol;
- nid yw'r cynllunio strategol diweddar wedi cael amser i ymsefydlu er mwyn symud yr ysgol ymlaen; ac
- er bod y broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu ers hir amser, nid yw'r ffocws a'r targedu wedi cael yr effaith briodol ar godi safonau disgyblion dros amser.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol i:

A1 godi safonau disgyblion yn y pynciau craidd a'u medrau allweddol, yn enwedig eu hysgrifennu ymestynnol a'u medrau technoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm;

A2 parhau i wella'r cynllunio er mwyn herio disgyblion yn gyson a gwahaniaethu'n effeithiol ar eu cyfer;

A3 cysoni'r broses o ymateb i waith disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut y gallant wella'u gwaith;

A4 parhau i weithredu'r cynllunio strategol i sicrhau bod y targedau sy'n deillio o'r hunan werthuso yn arwain yn uniongyrchol at godi safonau disgyblion; a

A5 mynd i'r afael â'r mater sy'n ymwneud ac iechyd a diogelwch.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol tua hanner y disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawniad digonol wrth ystyried eu mannau cychwyn.

Mae medrau cyfathrebu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar lafar yn Saesneg ac maent yn gwrando'n astud, yn siarad yn glir ac yn darllen â phwrpas yn yr iaith. Nid ydynt cystal yn y Gymraeg. Mae uwch fedrau darllen ac ysgrifennu ymestynnol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ddwy iaith yn ddigonol. Nid ydynt yn ymateb yn briodol i'r ystod o ddeunyddiau darllen yn gyson dda ac nid ydynt yn ysgrifennu'n ymestynnol yn effeithiol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae medrau drafftio gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion heb ddatblygu'n briodol i'w hoedran.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn foddhaol, fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'u medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae medrau cyfrifiadurol a thechnoleg bron pob un o'r disgyblion heb ymsefydlu'n gadarn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ansicr wrth arbed eu gwaith a dod o hyd i waith blaenorol ar y cyfrifiaduron. Mae cynnydd bron pob un o'r disgyblion gyda'u medrau yn yr iaith Gymraeg yn dangos cryfderau sy'n gorbwyso meysydd i'w gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau ehangach defnyddiol; mae eu hannibyniaeth fel dysgwyr a'r ffordd y maent yn gwerthuso'u gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn dechrau datblygu'n effeithiol. Mae'r broses newydd hon yn dechrau cael effaith bositif ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd cyflwyno gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddisgyblion yn anghyson ar draws y cwricwlwm.

Wrth gymharu ag ysgolion tebyg, mae'r tueddiadau ym mherfformiad disgyblion saith oed yn anwastad dros gyfnod o bum mlynedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn tueddu i berfformio'n is na'r lefelau disgwyledig. Mae'r canlyniadau hefyd wedi amrywio mewn cymhariaeth â'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl yn anwastad mewn cymhariaeth â'r sefyllfa yn ysgolion eraill y teulu, awdurdod lleol a Chymru gyfan. Nid oes patrymau amlwg o wahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn o'u cymharu â'r merched. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Annheg fyddai cymharu cyraeddiadau disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim gyda rheini nad oes â'r hawl, gan fod y niferoedd yn rhy fechan i sefydlu patrwm clir.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae bron

pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a gwella eu ffitrwydd trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae bron pob un disgybl yn ddysgwyr bodlon sy'n mwynhau bywyd yr ysgol. Mae'r mwyafrif yn mwynhau eu gwersi ac maent yn lleisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r ymddygiad yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion. Mae'r llysgenhadon a'r plant hŷn yn dangos gofal a pharch tuag at ddisgyblion iau a disgyblion ag anghenion arbennig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dda wrth iddynt drafod mentergarwch a'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo.

Mae'r gyfradd bresenoldeb, sef tua 95%, yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae bron pob un disgybl yn brydlon.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau synhwyrol am fywyd yr ysgol. Mae gwaith allgyrsiol y disgyblion a'u hymroddiad i'r dref a'r gymuned leol yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Er bod newidiadau sylweddol wedi digwydd i'r broses gynllunio yn ddiweddar, nid yw'r strwythur newydd wedi cael digon o amser i ddylanwadu'n llawn ar wella safonau'r disgyblion. Mae'r cynllunio diweddaraf ar draws yr ysgol yn dechrau ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn well.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r meysydd dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid oes digon o fanylder a dilyniant yn y cynllunio. O ganlyniad, nid yw'r cwricwlwm a ddarperir yn herio ac ennyn digon o ddiddordeb y mwyafrif o ddisgyblion. Mae anghysondeb yn y cynllunio sy'n rhwystro'r cyfleoedd i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn ddigonol gan fod y systemau newydd a weithredir yn ddiweddar heb gael yr amser priodol i ymsefydlu. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth yn system newydd iawn ar draws yr ysgol, a hyd yn hyn, nid ydynt yn cael yr effaith briodol ar safonau'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl yn dechrau cael sylw pwrpasol ac maent yn dechrau amlygu'u hunain ym mywyd dyddiol yr ysgol a gwaith y disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth effeithiol iawn i ddatblygu dealltwriaeth o faterion dinasyddiaeth fyd eang. Defnyddir cyd-addoli yn briodol i amlygu materion sy'n ymwneud â pharch at eraill ac addysg bersonol a chymdeithasol. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei datblygu'n effeithiol ar hyd yr ysgol.

## Addysgu: Digonol

Mae cryfderau'r addysgu'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella.

Lle mae addysgu da, defnyddir adnoddau'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae perthynas waith dda rhwng yr oedolion a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Ceir ethos gweithgar a hapus ac mae ymdeimlad o barch yn amlwg yn y dosbarthiadau. Mae cwestiynu yn dda ac yn ceisio ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae disgyblion yn elwa o'r ffaith bod eu hathrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith. Mae'r athrawon yn rhoi awgrymiadau ac anogaeth synhwyrol ar lafar i ddisgyblion ar gyfer gwella'u gwaith.

Mae cyflwyniadau a chyflymdra'r gwersi nad ydynt cystal yn rhy araf a rhy hir ac nid oes digon o her i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn or-ddibynol ar arweiniad yr athro, yn hytrach na meddwl drostynt eu hunain. Mae'r oedolion yn arwain y dysgu yn ormodol er eu bod nhw'n gwrando'n ofalus ar ymatebion y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith gan yr athrawon sy'n cyfyngu cyfleoedd i'r disgyblion i ymestyn eu gwaith, eu gwybodaeth a'u hannibyniaeth wrth ddysgu.

Mae marcio gwaith y disgyblion yn anghyson, er bod agweddau da i'w gweld. Lle mae diffygion, nid yw'r marcio yn dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion wella'u gwaith. Mae'r broses o osod targedau defnyddiol ar gyfer disgyblion unigol yn sefydlog trwy'r ysgol. Maent yn cael effaith adeiladol ar waith y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethu ar gyfer anghenion datblygiadol y disgyblion yn ddigon manwl a chlir. Hefyd, nid oes digon o her i symud y disgyblion hyn ymlaen i gyflawni'n well.

Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau ymsefydlu yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae meini prawf llwyddiant yn dechrau cael y sylw priodol ac yn dechrau cyfeirio'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Mae'r system o lefelu a chymedroli gwaith disgyblion dros amser yn adnabod lefelau cyrhaeddiad y disgyblion yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gyda digon o gysondeb i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Mae'r adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol, gyda'r wybodaeth briodol yn ei lle, sy'n cynnwys targedau personol. Ar y cyfan, mae'r rhieni a'r gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth addas am gynnydd eu plant ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, maent yn teimlo fod y rhan fwyaf o gynnwys yr adroddiadau yn amhersonol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae gwybodaeth dda ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol sy'n cynnwys gwefan ddefnyddiol, prosbectws yr ysgol ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd a disgyblion ag anghenion arbennig yn glir ac mae trefniadau da yn eu lle i drosglwyddo'r disgyblion hŷn i addysg uwchradd. Caiff y ddarpariaeth drefnus ar gyfer lles a manteision byw'n iach ei hyrwyddo'n glir iawn. Mae mentrau cenedlaethol fel y rhai ar gynhwysiad a chydraddoldeb yn cael eu hannog a'u cefnogi'n dda iawn.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae systemau effeithiol ar gyfer adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer pob un o'r disgyblion hyn. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau effeithiol ar adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol. Caiff pob disgybl eu cynnwys yn rheolaidd ym mywyd a gwaith dyddiol yr ysgol. Mae hyn yn arfer dda iawn ac mae'r agwedd bositif hon yn annog y disgyblion i ystyried a gwerthfawrogi eu cefndiroedd amrywiol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, eu hil neu'u crefydd ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r adeilad a'r tir yn effeithiol iawn ac maent yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r staff cymorth yn gweithio dan arweiniad yn effeithiol gydag athrawon dosbarth. Maent yn llwyddo i gyflwyno gweithgareddau priodol yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae ansawdd yr adnoddau'n dda a chânt eu defnyddio â phwrpas i gefnogi anghenion dysgu disgyblion.

Hysbyswyd y llywodraethwyr am fater sy'n ymwneud ac iechyd a diogelwch sydd angen sylw brys.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth a gweddill y staff yn cyd-weithio'n agos i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae'r uwch dîm rheoli yn gymharol newydd ac yn cynnwys y pennaeth a dwy ddirprwy bennaeth egnïol. Mae'r tîm rheoli wedi cyflwyno nifer o strategaethau i geisio codi safonau disgyblion a darparu cwricwlwm cyson ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau sydd ar waith wedi ymsefydlu'n ddigonol hyd yma, ac nid oes effaith ar safonau cyrhaeddiad nac ansawdd y cwricwlwm.

Mae cyfarfodydd cyson a diwrnodau hyfforddi cyfan yn cefnogi datblygiad proffesiynol y staff yn dda. Erbyn hyn mae'r cyfarfodydd yn cael eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn symud yr ysgol ymlaen yn strategol. Mae cyfrifoldebau penodol

gan y staff i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu ac maent yn rhannu arferion yn ddefnyddiol i geisio gwella'u harferion proffesiynol a safonau'r disgyblion.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn sefydlog. Mae'r ysgol yn cynnal rheoli perfformiad ac yn gweithredu'r gofyniad cyfreithiol i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn ffurfiol fel rhan o'r broses hon.

Mae'r ysgol yn targedu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda, er enghraifft, y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol a'r faner werdd o gynllun Eco Ysgolion. Mae'r ysgol yn ysgol ryngwladol ac mae ganddi bedair deilen o gynllun Ysgolion Iach. Mae'r ysgol yn gweithredu fel ysgol masnach deg ac mae wedi ennill lefel arian Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn effeithiol i bob disgybl hyd at saith oed.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn deyrngar ac mae ganddynt ddiddordeb priodol ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn datblygu dealltwriaeth ddigonol o'r ffordd y mae'r ysgol yn perfformio trwy wrando ar staff ac ymweld â dosbarthiadau yn achlysurol. Mae'r cadeirydd a gweddill y corff llywodraethol yn mynychu hyfforddiant ac yn dechrau herio'r ysgol yn fwy fel ffrindiau beirniadol. Maent yn dechrau trin data perfformiad yr ysgol yn well a deall y goblygiadau sydd arnynt wrth iddynt fynd i'r afael â chreu gwelliannau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i hen sefydlu, ond nid yw'r gweithdrefnau wedi arwain at godi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Erbyn hyn, mae prosesau hunanarfarnu'n fwy systematig a chlir. Mae'r staff cyfan yn fwy ymwybodol o bwrpas ac effaith hunanarfarnu effeithiol. Mae'r rheolwyr ac arweinwyr yn datblygu gwell ddealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Maent bellach yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau disgyblion a datblygu'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau ymhellach.

Mae'r cynllun gwella ysgol, sy'n deillio o'r hunanarfarniad diweddar, yn dechrau cael effaith gadarnhaol er mwyn gwella'r ysgol ymhellach. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac mae'r defnydd o ddata wrth olrhain cynnydd disgyblion yn dechrau herio'r ysgol i godi safonau.

Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu da. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a phartneriaid eraill, sy'n cynnwys y gymuned ehangach, y gwasanaeth addysg a'r awdurdod lleol. Gwnaed cynnydd anghyson wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf ynglŷn â dilyniant a pharhad wrth gynllunio'r addysgu, datblygu rôl y llywodraethwyr a gwella safonau a chyflwyniad gwaith yng nghyfnod allweddol 2. Erbyn hyn, mae'r tîm rheoli newydd yn dechrau mynd i'r afael yn effeithiol â'r agweddau a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill yn dda ac mae bron pob un o'r rhieni yn gwerthfawrogi polisi 'drws agored' yr ysgol. Mae'r partneriaethau gyda

busnesau lleol yn effeithiol gyda rhai ohonynt yn derbyn plant ar ymweliadau. Mae hyn yn cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith. Mae'r cysylltiadau rhwng y cylch meithrin, sydd wedi ei leoli yn yr ysgol yn y prynhawniau, a'r ysgol yn effeithiol iawn. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu'n dda iawn trwy astudiaethau a chysylltiadau â gwledydd a chyfandiroedd eraill. Mae'r ysgol yn cefnogi elusennau priodol sy'n codi ymwybyddiaeth y plant o anghenion pobl eraill yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Caiff staffio, adnoddau a'r cyllid eu rheoli'n dda. Mae gan athrawon wybodaeth briodol i gyflwyno cwricwlwm eang. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon i wella cyflawniad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth neu ar ddyletswyddau trwy gydol y dydd.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol ac mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn dda. Er bod llawer wedi'i gyflawni yn ddiweddar, nid yw'r cynllunio strategol a'r blaenoriaethau datblygu wedi cael yr amser i sefydlu ac effeithio ar safonau'r disgyblion, y cynllunio a'r addysgu.

Er bod cynnydd diweddar mewn nifer o feysydd, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian oherwydd y diffygion yn neilliannau disgyblion, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae medrau sylfaenol tua hanner y disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawniad digonol wrth ystyried eu mannau cychwyn.

Mae tueddiadau ym mherfformiad disgyblion saith oed sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd, sef, lefel 2 neu'n uwch mewn cyfuniad o'r pynciau craidd, yn anwastad dros gyfnod o bum mlynedd. Mae wedi amrywio rhwng y chwarter uchaf a'r chwarter isaf mewn cymhariaeth ag ysgolion sydd â chanran tebyg o ran cinio am ddim. Yng nghyfnod allweddol 2, lle lefel 4 neu'n uwch yw'r lefel disgwyliedig, mae'r ysgol yn tueddu i gwympo i'r trydydd neu bedwerydd chwarter ym mhob pwnc ac wrth gyfuno'r pynciau. Mae'r canlyniadau hefyd wedi amrywio mewn cymhariaeth â'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan yn y dangosydd pwnc craidd a hefyd yn y pynciau craidd yn unigol.

Mae data'r ysgol yn dangos bod canlyniadau grwpiau penodol o ddisgyblion fel hwyr ddyfodiaid yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, drwy archwilio gwaith a llyfrau'r disgyblion, nid yw'r canlyniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gyson. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy abl a thalentog, yn gwneud cynnydd da.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl yn anwastad mewn cymhariaeth â'r sefyllfa yn ysgolion eraill y teulu, awdurdod lleol a Chymru gyfan. Nid oes patrymau amlwg o wahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn o'u cymharu â'r merched. Annheg fyddai cymharu cyraeddiadau disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim gyda rheini nad oes â'r hawl gan fod yn niferoedd yn rhy fechan i sefydlu patrwm clir.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd hyd at 57 o rieni i’r holiadur. Mae pawb o’r farn bod cymorth i’w plant i ymgartrefu’n dda wrth ddechrau’r ysgol a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach.

Mae bron pob un yn dweud bod eu plant yn hoffi’r ysgol, bod yr addysgu’n dda, bod disgwyliadau’r staff yn pwysleisio gweithio’n galed a bod gwaith cartref yn adeiladu ar waith y dosbarth. Yn ychwanegol, mae bron pob un yn fodlon â’r ysgol yn gyffredinol, bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn hybu aeddfedrwydd ac ysgwyddo cyfrifoldebau.

Mae’r rhan fwyaf yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda, bod cymorth ychwanegol priodol ar gael i’w plant, bod eu plant yn barod i symud ymlaen i’w hysgol nesaf a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, teithiau ac ymweliadau ar gael. Hefyd, mae’r rhan fwyaf yn teimlo’n esmwyth wrth gysylltu â’r ysgol, bod gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn ar gael, bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da, bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Llawer o rieni sy’n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Ymatebodd 85 o ddisgyblion i’r holiadur. Mae pob disgybl yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio, bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw’n iach, bod digon o gyfleoedd am ymarfer corff, bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn gwybod beth i’w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, o’r farn bod digon o adnoddau ganddynt, bod ymddygiad yn dda yn ystod amser chwarae a dros cinio, eu bod nhw’n gwneud yn dda, eu bod nhw’n gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn gofidio a bod gwaith cartref yn helpu’u gwaith ysgol.

Llawer sydd o’r farn bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a galluogi iddynt fwrw ymlaen â’u gwaith.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gwyneth Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Isabel Hind (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |